# PWYLLGOR CRAFFU GOFAL CYMDEITHASOL AC IECHYD

Dydd Mawrth, 20 Ebrill 2021

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd G. Thomas (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
S.M. Allen, D.M. Cundy (yn lle K. Madge), K.V. Broom, I.W. Davies, K.Davies, R.E. Evans, W.T. Evans, M.J.A. Lewis, K. Lloyd a E.M.J.G. Schiavone

**Hefyd yn bresennol Y Cynghorwyr:**
L.D. Evans, Aelod y Bwrdd Gweithredol dros Tai
D.M. Jenkins, Aelod y Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau
J. Tremlett, Aelod y Bwrdd Gweithredol dros Gofal Cymdeithasol ac Iechyd

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
C. Harrison, Pennaeth Comisiynu Strategol ar y Cyd
J. Morgan, Pennaeth Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel
A. Williams, Pennaeth Y Gwasanaethau Integredig
K. Barlow, Uwch Reolwr-Anghenion Cymhleth a Throsglwyddo
A. Thomas, Gyfrifydd Grwp
R. Page, Uwch Reolwr Cymorth Busnes
S. Sauro, Rhelowr Perfformiad, Dadansoddi a Systemau
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd
M. Evans Thomas, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
S. Hendy, Swyddog Cefnogi Aelodau
E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Rhith-Gyfarfod - 10.00 yb - 11.35 yb**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr A.L Fox, K. Madge a D.T. Williams.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL GAN GYNNWYS UNRHYW CHWIPIAU PLEIDIAU A RODDIR MEWN YMATED I UNRHYW EITEM AR YR AGENDA

| Y Cynghorydd | Rhif(au) y Cofnod | Y Math o Fuddiant |
|---|---|---|
| K. Lloyd | 4. Adroddiad Monitro Cyllideb Refeniw a Chyllideb Gyfalaf 2020/21.<br>6. Strategaeth Anableddau Dysgu 2020/2025 | Mae aelod agos o'r teulu yn ofalwr yn y Cynllun Cysylltu Bywydau. |

Ni chafwyd dim datganiadau ynghylch chwip waharddedig.

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

## 3. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

## 4. ADRODDIAD MONITRO CYLLIDEB CYFALAF A REFENIW 2020/21

Bu'r Pwyllgor yn ystyried Adroddiad Monitro'r Gyllideb Refeniw a'r Gyllideb Gyfalaf ar gyfer y Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol ac Iechyd a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa gyllidebol fel yr oedd ar 31 Rhagfyr 2020, mewn perthynas â blwyddyn ariannol 2020/21.

Rhagwelid y byddai'r Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol ac Iechyd yn gorwario £789k o ran y gyllideb refeniw ac y byddai -£149k o amrywiant net yn erbyn y gyllideb gyfalaf oedd wedi'i chymeradwyo ar gyfer 2020/21.

Codwyd y cwestiynau/sylwadau canlynol wrth drafod yr adroddiad:

- Gofynnwyd a fyddai'r gorwariant ar y gyllideb Anableddau Corfforol ac Iechyd Meddwl wedi digwydd pe na bai pandemig Covid wedi digwydd. Dywedodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau ei bod yn anodd rhagweld a fyddai wedi digwydd ond rhoddodd sicrwydd bod y gyllideb dan reolaeth.
- Gofynnwyd a oedd y gorwariant amcanol wedi lleihau ers i'r adroddiad gael ei lunio. Dywedodd Cyfrifydd y Grŵp fod y cyfrifon yn dal i gael eu cwblhau, ond roedd incwm yn dod i law felly'r gobaith oedd y byddai'r sefyllfa'n gwella rhywfaint.

**PENDERFYNWYD bod yr adroddiad yn cael ei dderbyn.**

## 5. CYNLLUN BUSNES ADRANNOL ADRAN CYMUNEDAU 2021/22

Ystyriodd y Pwyllgor Gynllun Busnes 2021/22 yr Adran Cymunedau mewn perthynas â'r gwasanaethau hynny sydd o fewn ei faes gorchwyl:

- Cymorth Busnes a Chomisiynu
- Gwasanaethau Integredig
- Gofal Cymdeithasol i Oedolion
- Cartrefi Gofal (rhan o Gartrefi a Chymunedau Mwy Diogel)

Nodwyd bod hwn yn gynllun cryno oherwydd pandemig COVID-19. Fel arfer, byddai'n cynnwys adolygiad ond roedd hwnnw eisoes wedi'i gynnwys yn yr asesiadau o effaith COVID-19 ar wasanaethau a gyflwynwyd yn flaenorol i'r Pwyllgor ym mis Ionawr a mis Mawrth.

Rhoddwyd sylw i'r materion/cwestiynau canlynol wrth drafod yr adroddiad:-

- Gofynnwyd am y wybodaeth ddiweddaraf o ran rhoi'r Trefniadau Amddiffyn Rhyddid ar waith. Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Integredig fod y Llywodraeth wedi gohirio rhoi'r trefniadau ar waith. Fodd bynnag, fel Awdurdod, roedd gwaith paratoi yn parhau ac roedd cynlluniau cynhwysfawr yn cael eu datblygu rhwng y tri Awdurdod a'r Bwrdd Iechyd.

Rhoddwyd sicrwydd bod yr Awdurdod yn cynnal cydymffurfiaeth â'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid.

- Mynegwyd pryder ynghylch y gwelyau gwag mewn cartrefi gofal. Dywedodd y Pennaeth Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel fod nifer y gwelyau gwag wedi lleihau.
- Cyfeiriwyd at y rhaglen fuddsoddi arloesol ar gyfer cartrefi gofal a thai gwarchod. Dywedodd y Pennaeth Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel fod rhai o'r cartrefi gofal wedi dyddio a bod angen eu moderneiddio, ac mai'r bwriad oedd cael cyllid drwy'r Gronfa Gofal Integredig a Bargen Ddinesig Bae Abertawe a'i ddefnyddio i fuddsoddi mewn technoleg.

**PENDERFYNWYD derbyn Cynllun Busnes Adrannol yr Adran Cymunedau 2021/22.**

## 6. STRATEGAETH ANABLEDDAU DYSGU 2020-2025

Bu'r Pwyllgor yn ystyried Strategaeth Anableddau Dysgu (2020-2025). Roedd y Pwyllgor wedi ystyried y strategaeth ddrafft o'r blaen yn ei gyfarfod ar 19 Ebrill 2018.

Nodwyd y cynhaliwyd cyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu yn 2019 wrth ddatblygu'r strategaeth derfynol. Hwyluswyd y rhain gan Mencap a Phobl yn Gyntaf Sir Gaerfyrddin, gyda chymorth swyddogion y Cyngor. Rhoddodd y strategaeth llawer o wybodaeth i'r rhiant/gofalwr a'r defnyddiwr gwasanaeth am gyfeiriad pendant o ran anableddau dysgu yn Sir Gaerfyrddin.

Rhoddwyd sylw i'r materion/cwestiynau canlynol wrth drafod yr adroddiad:-

- Gofynnwyd ynghylch y cynnydd a ragwelir yn y boblogaeth ag anableddau dysgu. Dywedodd y Pennaeth Comisiynu Strategol ar y Cyd fod y ffigurau a ragwelir wedi'u nodi gan ddefnyddio'r wybodaeth ddemograffig o gronfa ddata *StatsCymru* a ddefnyddir ledled Cymru.
- Gofynnwyd a oedd gan yr Awdurdod gynllun ar waith ar gyfer y cynnydd yn y galw ar y gwasanaethau awtistiaeth. Rhoddwyd gwybod bod Strategaeth Ranbarthol ar gyfer awtistiaeth ac y byddai'r Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion yn gallu rhoi rhagor o wybodaeth.
- Mewn ymateb i sylw ynghylch y bylchau yn y gwasanaethau sydd ar gael gyda'r nos ac ar benwythnosau, dywedodd y Pennaeth Comisiynu Strategol ar y Cyd fod gwelliannau eisoes wedi'u gwneud. Yn ystod y broses ymgynghori ac ymgysylltu, roedd yn amlwg bod angen sicrhau bod cymorth ar gael pan oedd ei angen fwyaf. Roedd gwaith yn parhau i fynd i'r afael â'r anghenion hyn ac i wneud cymunedau'n fwy cynhwysol.
- Mynegwyd pryder ynghylch y diffyg trafnidiaeth. Cydnabuwyd, yn anffodus, bod hyn yn broblem barhaus a bod gwaith yn parhau i gefnogi pobl i gael mynediad i wasanaethau lleol yn y gymuned. Hefyd, penodwyd hyrwyddwr trafnidiaeth a oedd yn gynrychiolydd defnyddwyr ar y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol.
- Mynegwyd pryderon ynghylch y diffyg argaeledd y gwasanaeth Ceir Cefn Gwlad mewn rhai ardaloedd. Dywedwyd efallai y gallai'r Pwyllgor gysylltu â'r Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol i drafod y pryderon hyn.
- Holwyd sut oedd y broses o newid taliadau uniongyrchol yn rhai mewnol yn mynd yn ei blaen. Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod y prosiect wedi mynd

rhagddo'n dda a bod yr adborth gan y defnyddwyr gwasanaeth wedi bod yn gadarnhaol.

**PENDERFYNWYD bod Strategaeth Anableddau Dysgu (2020-2025) yn cael ei derbyn.**

**7. ADRODDIAD CWYNION A CHANMOLIAETH GOFAL CYMDEITHASOL I OEDOLION 1 EBRILL, 2020 - 31 RHAGFYR, 2020**

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i adroddiad a fanylai ar y cwynion a'r ganmoliaeth ynghylch Gofal Cymdeithasol i Oedolion, a oedd wedi dod i law ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/21. Roedd yr adroddiad yn crynhoi nifer y cwynion a'r ganmoliaeth oedd wedi dod i law ac yn cynnwys gwybodaeth am y math o gŵynion a'r maes gwasanaeth sy'n ymwneud â chwynion a chanmoliaeth.

Pwysleisiodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol fod nifer y canmoliaethau a gafwyd wedi mwy na dyblu yn ystod y cyfnod adrodd a bod nifer y cwynion wedi lleihau.

Dywedwyd, er bod nifer y cwynion wedi lleihau, ei bod yn bwysig eu cael fel bod modd dysgu gwersi.

**PENDERFYNWYD bod yr adroddiad yn cael ei dderbyn.**

**8. EITEMAU AR GYFER Y DYFODOL**

**PENDERFYNWYD nodi'r rhestr o eitemau ar gyfer y dyfodol a oedd i'w hystyried yn y cyfarfod nesaf ar 21 Mai 2021.**

**9. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 11EG MAWRTH 2021**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor oedd wedi ei gynnal ar 11 Mawrth 2021 gan eu bod yn gywir.**

_________________________ ___________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**